

Diolch – Hoffai Eunice Cawley, ddiolch yn fawr iawn i'n cefnogwyr rheolaidd ar ran tîm “Ben Bwrdd”. Heb ddyn nhw a'u rhoddion hael, fuasem ni byth yn gallu codi cymaint o arian. Rydym ni'n ffodus iawn bod yr arian yn mynd tuag at gynnal a chadw'r pafiliwn cymunedol.

Bydd tîm “Ben Bwrdd” yn cael hoe fach ar ôl y Parti 'Dolig ar y 12^{fed} o Ragfyr. Yna, bydd Ben Bwrdd yn ail gychwyn bob dydd Gwener o 10yb tan 3yp ar ddydd Gwener y 9^{fed} o Ionawr 2015.

Croeso cynnes i bawb, dewch i weld pa fargeinion sydd yno i chi, neu dewch am glonc a phaned. Mi fydd yna groeso mawr i chi.

Clwb Celf Eryri

Oes gennych chi ddiddordeb mewn celf? Ydych chi am wneud mwy ohono? Am rannu'ch sgiliau a hefyd dysgu sgiliau gan eraill?

Beth am ymuno â Chlwb Celf Eryri? Maen nhw'n cyfarfod bob dydd Sadwrn o 10yb tan 4yp yn y pafiliwn cymunedol. Mwynhewch gelf mewn awyrgylch braf a chyfeillgar. Cysylltwch ag Ann Fellows am fwy o wybodaeth –
01690 750488



Beth am fod yn hael gyda chi'ch hun y Nadolig yma a mynd am ginio 'Dolig tri chwrs yn **Elen's Castle**, neu barti Nadolig a disco yn y **Gwydyr**. Mwynhewch yr ŵyl yn lleol a chefnogwch fusnesau'r gymuned.